



Cymorth Busnes Gofal Plant
Canllaw ar gyfer Ceisiadau Grant
2020/21



Mae'r **Grant Gofal Plant a Chwarae** (Grant Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol gynt) yn rhaglen gan **Lywodraeth Cymru** a ddarperir yng Nghaerdydd trwy'r **Gwasanaeth Cymorth Busnes Gofal Plant**. Mae'n cyfrannu at ddarparu ystod o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y Cynllun Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant a'r Cynllun Trechu Tlodi ac mae'n hanfodol wrth gefnogi darpariaeth gofal plant fforddiadwy a hygyrch o safon i fodloni anghenion teuluoedd y tu allan i'r diwrnod ysgol.

Pwy all wneud cais?

Unrhyw sefydliad newydd neu bresennol, boed hynny'n sefydliadau corfforedig, o'r sector cyhoeddus neu breifat sy'n cynnig neu'n cynorthwyo datblygu, cynaliadwyedd a safon Gofal Plant.

Er mwyn cydymffurfio â meini prawf y grant, mae'n rhaid i'r sefydliad:

- **Weithredu yn unol â'i ddogfen lywodraethu gyfreithiol;**
- **Gallu dangos ei angen am gymorth ariannol;**
- **Bod wedi gosod strategaeth ar gyfer cynaliadwyedd parhaus;**
- **Rhoi tystiolaeth ysgrifenedig o'r galw am y gwasanaeth lle mae angen arian ychwanegol ar ffurf Arolygon a Holiaduron Rhieni/Gofalwyr.**

Asesir ceisiadau ar sail unigol, gan ystyried cydymffurfiaeth gyfreithiol, sefyllfa ariannol bresennol a rhagfynegiannol y sefydliad sy'n ymgeisio a thystiolaeth bod digon o ddiddordeb yn y gwasanaeth sy'n gofyn am arian.

Ni fydd cyllid grant ar gyfer ceisiadau llwyddiannus yn cael ei ryddhau nes bydd y Lleoliad wedi ailagor yn dilyn y Pandemig Coronafeirws.

Rhaid bod holl gofnodion CIW a Dewis wedi'i ddiweddarau i nodi'r newid yn statws y ddarpariaeth.

Beth y gellir ei ariannu?

Gwahoddir ceisiadau am arian dan y tri chategori canlynol:

Gwella Gwasanaeth

Gellir rhoi cymorth ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â gwella safon y ddarpariaeth, yn benodol pan fo'n berthnasol i ofynion Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) neu faterion a godir yn yr **Adroddiadau Archwiliad (cyflwynwch eich Adroddiad AGC diweddaraf ynghyd â'ch cais)** i'w gwneud yn addas ar gyfer gofal plant yn barhaus.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21, ac yn sgil y pandemig, caiff lleoliadau wneud cais am gymorth a fyddai'n caniatáu i ailagor y ddarpariaeth yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, Mesurau Diogelu ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Gall y mesurau hyn gynnwys Gorsafoedd Golchi Dwylo Cludadwy ac offer cysylltiedig, Rhanwyr Ystafelloedd, sefydlu Ystafell Ynysu, dylun Canllawiau'r Asiantaeth Safonau Bwyd, Systemau Cyfrifiadurol ar gyfer cyfathrebu â rhieni, ar gyfer eitemau nad ydynt yn gymwys i gael eu hariannu o dan Cynllun Grantiau Cyfalaf Bach y Cynnig Gofal Plant.

[Dolen i fesurau Diogelu Llywodraeth Cymru mewn lleoliadau gofal plant: Cadw Gofal Plant yn Ddiogel](#)

[Dolen i ddatganiad Iechyd Cyhoeddus Cymru am achosion y Coronafeirws Newydd \(COVID-19\) wedi'i ddiweddarau bob dydd am 2pm](#)

[Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant wedi'i Reoleiddio](#)

[LINK Asiantaeth Safonau Bwyd](#)

[LINK Diweddariadau AGC](#)

Hyfforddi'r Gweithlu

Rydym yn annog Datblygiad Proffesiynol Parhaus a gellir rhoi arian i sefydliadau y mae eu staff am ddechrau hyfforddiant penodol (yn cynnwys cymwysterau Gofal Plant a Gwaith Chwarae) o ganlyniad i ofynion AGC neu er mwyn gwella a datblygu gwasanaethau'r ddarpariaeth. Byddem yn disgwyl i hyn fod ar sail tystiolaeth o Ddadansoddiad Anghenion Hyfforddiant eich lleoliad. Nid oes arian grant ar gyfer hyfforddiant Cyfreithiol a Rheoliadol sydd ar gael trwy **Ddatblygu'r Gweithlu** gan fod y rheiny eisoes yn destun cymhorthdal sylweddol.

Cymorth Cynaliadwyedd

O ystyried y sefyllfa bresennol, rydym yn bwriadu cyflwyno ceisiadau am grantiau cynaliadwyedd yn chwarter 4 (Ionawr – Mawrth 2021)

Gall darparwyr gofal plant sefydledig sy'n cael trafferth cynnal hyfywedd, wneud cais am gyllid **Untro** i gynnal darpariaeth gofal plant presennol o ansawdd da a'i ddefnyddio tuag at farchnata, hysbysebu

a hyrwyddo ac yn sgil y pandemig, caiff darparwyr wneud cais am gyllid untro o 1/1/21, am gyfanswm o £1,500, tuag at gostau staffio i sicrhau parhad cyflogaeth. Mae'n rhaid i ddarparwyr ddangos sut maent yn gweithio'n raddol tuag at ddichonoldeb yn yr hirdymor. Byddwn yn gofyn am ffigurau gwirioneddol o'r Gyllideb Weithredol/Llif Arian ar gyfer y cyfnod o ailagor i ddyddiad y Cais am Grant. **Bydd cais llwyddiannus am grant cynaliadwyedd yn eithrio'r lleoliad/gwasanaeth rhag gwneud cais am gymorth cynaliadwyedd ychwanegol yn y Flwyddyn Ariannol ganlynol.**

Am faint y gallwn ni wneud cais?

Bydd swm y grant yn dibynnu ar amgylchiadau unigol ond y cyfanswm y gall unrhyw sefydliad wneud cais amdano yn ystod yr un flwyddyn ariannol yw **£2000**.

Fel canllaw ar gyfer ymgeiswyr, rydym yn disgwyl y bydd nifer y lleoedd a grëwyd/cadwyd sy'n cael eu cynorthwyo gan yr arian yn adlewyrchu'r swm y gwneir cais amdano. Byddwn yn ariannu ar gyfradd o **£200** fesul lle gofal plant yn seiliedig ar eich Rhif AGC cofrestredig, hyd at uchafswm o **£2,000** fesul lleoliad.

O ran costau cyfalaf, dim ond mân waith y byddwn yn caniatáu ei gynnwys, ond ni ddylai'r rhain fod yn fwy na £1,500. Rhaid rhoi manylion llawn yr holl waith sydd i'w gyflawni ar adeg gwneud y cais. Os yw eich gwaith cyfalaf yn ymwneud â lleoedd y Cynnig Gofal Plant, gwnewch gais am grant cyfalaf y Cynnig Gofal Plant.

Bydd yn rhaid gwario'r holl arian grant erbyn 31 Mawrth 2021.

Croesewir ceisiadau o 20 Gorffennaf 2020.

Ein bwriad yw rhannu'r Grant Gofal Plant a Chwarae yn dri chwarter gydag uchafswm gwariant fesul Chwarter gwerth £20,000

- 20/7/2020 - 30/9/2020
- 1/10/2020 - 31/12/2020
- 01/01/2021 – 31/03/2021

Sicrhewch fod eich cais yn gyflawn cyn ei gyflwyno oherwydd y gwrthodir ceisiadau anghyflawn.

Sut asesir y ceisiadau?

Caiff ceisiadau eu sgorio yn ôl meini prawf ar sail yr wybodaeth a thystiolaeth ategol a gyflwynir.

Rhoddir blaenoriaeth barhaus i gynorthwyo galluogi gweithredu'r mesurau sydd eu hangen i ail-agor a'r rhai sy'n mynd i'r afael ag anghenion rhieni sy'n gweithio ac yn darparu lleoedd i blant sy'n agored i niwed neu sydd ag anghenion ychwanegol.

Sut caiff y grant ei fonitro?

Er mwyn sicrhau bod y grant wedi ei ddefnyddio at y dibenion a fwriedir ac er mwyn asesu ei effaith ar waith sefydliad, cynhelir proses fonitro ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, neu ynghynt os yw'r arian wedi ei ddefnyddio'n llawn. Bydd monitro yn y cyfamser hefyd, yn dibynnu ar natur yr arian grant.

Gan amlaf, bydd Swyddog Cymorth Busnes Gofal Plant mewn cysylltiad rheolaidd â'r sefydliadau y maent yn eu hariannu, dros y ffôn, drwy e-bost neu mewn cyfarfodydd.

Gofynnir hefyd i ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau ffurflen werthuso ar y broses ymgeisio am arian fel dull o roi'r gallu i ni sicrhau y darperir y gwasanaeth mor effeithlon â phosibl.

Pryd cawn wybod a fuom yn llwyddiannus?

Rhoddir gwybod i ymgeiswyr a fuont yn llwyddiannus ai peidio o fewn mis wedi iddynt gyflwyno eu cais .

Os gwrthodir eich cais, mae modd ailgyflwyno cais wedi ei ddiwygio yn yr un flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, byddai angen i chi ddangos pa newidiadau rydych wedi eu gwneud er mwyn atgyfnerthu eich cais am arian.

Dolenni ychwanegol:

[Dolen ar gyfer profi, tracio ac olrhain](#)

[Dolen i wneud cais am brawf coronafeirws](#)

Cwblhau'r Ffurflen Gais

Cwestiwn 1

Nodwch fanylion y Sefydliad gan ddefnyddio cyfeiriad y safle lle mae'r gofal plant yn gweithredu (os yw'n berthnasol) ac enw'r ward etholiadol lle darperir y gwasanaeth. Gall eich statws cyfreithiol fod yn unrhyw un o'r canlynol: Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant (yn cynnwys Cwmnïau Elusennol), Cwmni Cyfyngedig Drwy Gyfrannau, Cwmni Er Budd Cymunedol, Sefydliad Elusennol Corfforedig, Partneriaeth, Unig Fasnachwr a.y.b.

Cwestiwn 2

Manylwch sut y mae'r gwasanaeth yn cydweithredu ag ysgolion lleol i gynnig gofal plant y Tu Allan i'r Ysgol.

Cwestiwn 3

Mae angen i chi egluro'n glir pam rydych yn gwneud y cais am arian a dangos eich angen ariannol penodol amdano – **(Ffigurau/cofrestrau gwirioneddol i'w chyflwyno o'r cyfnod ail-agor i'r adeg gwneud cais)** h.y. dangos pam na allwch ariannu'r fenter eich hun.

Cwestiwn 4

Dylech nodi yma gyfanswm yr holl eitemau rydych yn gwneud cais amdanynt. Dylech restru pob eitem ar y Daflen Costau Gofal Plant atodol a'i chyflwyno gyda'ch cais.

Cwestiwn 5

Sylwch, bydd yn rhaid i chi wario'r cyfanswm erbyn 31 Mawrth 2021.

Cwestiwn 6

Rhowch fanylion sut y bydd y gwasanaeth a'r defnyddwyr gwasanaeth yn elwa o'r arian.

Cwestiwn 7

Eglurwch pa mor ddifrifol fyddai peidio â derbyn y grant.

Cwestiwn 8

Dangoswch pa gamau rydych yn eu cymryd i sicrhau y bydd y gwasanaeth yn hunan-ariannu yn y dyfodol heb angen am arian grant.

Cwestiwn 9

Sicrhewch mai'r sawl sy'n gwneud y cais sy'n cwblhau'r adran hon. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch pa dystiolaeth y dylech ei chyflwyno, cysylltwch â Gwasanaeth Cymorth Busnes Gofal Plant am ragor o gymorth.

Os ydych yn dymuno diddymu eich cais ar unrhyw adeg, rhowch wybod i'r **Tîm Cymorth Busnes Gofal Plant** ar **029 20351714**.

